# CYMRU LEWYRCHUS

**Menter Môn a'r daith tuag at Gymru fwy llewyrchus...**

Gyda chymaint o brosiectau a chynlluniau mewn cynifer o feysydd mae gwaith Menter Môn yn ymgorffori llawer o agweddau sy'n cael eu cynnwys o fewn nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r dyfodol. Nid oes yr un lle ble mae hyn yn fwy amlwg na'n cyfraniad tuag at greu 'Cymru fwy llewyrchus'.

MENTER MÔN Ers 1995



Cynan Glyn
**Tŷ Coffi 'Y Werin'**



Osian Evans
**Tonfedd Arall**



Daniel Lewis
**Lens Dros y Ffens**



Mirain Rhisiart
**INDI**



Alaw Williams
**Jinsan**



Lois Hughes
**Arwyddo**



Nathan Craig
**Pêl-droed Nathan Craig Football**

O gefnogi prosiectau sy'n creu swyddi lleol i bobl ifanc, i hybu'r economi gylchol a chaffael teg, i sicrhau defnydd effeithiol o'n hadnoddau - mae hyrwyddo cymunedau sy'n ffynnu yn gyrru llawer o'r hyn rydym yn ei wneud.

Un o'r prosiectau hynny sy'n dod â chymaint o werthoedd Menter Môn at ei gilydd yw '**Llwyddo'n Lleol 2050**'. Wedi ei ariannu trwy gynllun Arfor, Llywodraeth Cymru, mae'n ceisio herio'r dybiaeth fod rhaid gadael gogledd Cymru er mwyn llwyddo ym myd gwaith a busnes.

Mewn cynllun 10 wythnos, mae'r prosiect yn cynorthwyo criw o bobl ifanc ardal Môn a Gwynedd i ddatblygu eu sgiliau a'u mentergarwch, gyda phwyslais ar sectorau twf yr ardal. Mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at y cyfleoedd gwaith yn ogystal ag ansawdd bywyd yma, fel nad ydi pobl ifanc yn teimlo gorfodaeth i adael i chwilio am waith.


Gyda chymorth ariannol a mentora mae'r rheiny sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun yn cael eu hannog i ddatblygu syniadau busnes. Ers cychwyn y prosiect mae'r syniadau sydd wedi cael eu cynnig yn amrywio o'r byd digidol, i gynhyrchu bwyd a diod, cynnig sesiynau ymarfer corff a chreu cynnyrch adnewyddadwy.

Fel rhan o'r rhaglen mae'r bobl ifanc yn rhannu eu profiadau dros gyfryngau cymdeithasol a phodlediadau ac mae sawl un wedi cael sylw ar y cyfryngau hefyd. Gyda'r ail griw yn nesáu at ddiwedd y cynllun yn fuan, y gobaith yw bydd Llwyddo'n Lleol yn tyfu ac yn parhau i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd yma ar garreg ein drws.



Cynllun arall sydd wedi bod yn hyrwyddo entrepreneuriaeth yw'r **Hwb Menter**. Wedi ei gyflawni mewn partneriaeth â M-SParc ar ran Llywodraeth Cymru, mae'r Hwb yn cynnig pecyn o gefnogaeth i fusnesau newydd ar draws y gogledd er mwyn datblygu sgiliau rhedeg busnes ac annog arloesedd. Gallwch ddarllen mwy am un o gyfranogwyr llwyddiannus y cynllun yma, Heledd Owen, ar y dudalen nesaf.

*"Roedden ni'n edrych ar wahanol opsiynau o ran gwerthu ers tro, ac yn hapus iawn pan ddaethon ni ar draws siop.io. Nid yn unig mae'n blatfform dwyieithog, ond mae o wedi ei gynllunio gyda busnesau yr ardal yma mewn golwg"*




Nid dim ond busnesau newydd sy'n cael ein sylw fodd bynnag - a thrwy gydol argyfwng Covid19 rydym wedi bod yn gweithio gyda nifer o gwmnïau sydd wedi gorfod wynebu'r heriau sylweddol, gan gynnwys gorfod cau am gyfnod oherwydd y cyfyngiadau.

Cynllun sydd newydd ei lansio sy'n deillio o'r heriau yma yw **Siop.io**. Mae'n blatfform sy'n galluogi busnesau bwyd a diod annibynnol i werthu eu cynnyrch ar-lein ac wedi cael ei ddatblygu er mwyn cyfrannu at hybu'r economi leol. Mae Siop.io yn galluogi i fusnesau bwyd drawsnewid y ffordd maen nhw'n gwerthu i gwsmeriaid gan greu busnesau sy'n fwy hyblyg ac yn hyfyw i wynebu heriau i'r dyfodol.

Yn parhau yn y sector bwyd a diod, un arall o gynlluniau Menter Môn yw **Môn Larder** sydd wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo cynnyrch lleol ar gyfer caffael ar raddfa fawr i'r sector gyhoeddus dros y flwyddyn ddiwethaf. Trwy weithio gydag adain bwyd a diod Llywodraeth Cymru, rydym wedi bod yn targedu prynwyr a dylanwadwyr o fewn sefydliadau cyhoeddus fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd i dynnu sylw at y manteision o gaffael bwyd a diod yn lleol. Trwy hyrwyddo caffael teg fel hyn, rydym yn cefnogi cadwyni cyflenwi byrion er budd economi leol a'r amgylchedd.

# heleddowen

Mae Heledd Owen yn un sydd wedi llwyddo i gychwyn busnes darlunio llwyddiannus diolch i gynllun Hwb Menter.  Mae hi bellach yn hunangyflogedig a'r busnes wedi mynd o nerth i nerth a hynny ers cychwyn y cyfnod clo.

Trwy ei chwmni newydd, **Darlunio Heledd Owen**, mae hi yn creu comisiynau unigryw ac yn cynllunio posteri, llyfrau nodiadau a chrysau-t. Roedd y syniad wedi bod ar feddwl Heledd ers peth amser, ac yn dilyn colli ei gwaith yn ystod y cyfnod clo cyntaf penderfynodd ei bod yn amser mentro. Cofrestrodd i gymryd rhan yng nghynllun 'Miwtini' trwy'r Hwb Menter a drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau 'troi hobi yn fusnes' llwyddodd i ddysgu digon i weithio iddi hi ei hun yn llawn amser.

Gyda siop ar-lein, mae hi wedi gallu parhau â'i gwerthiant yn ystod y cyfnod clo ac wedi gweld cynnydd yn y galw am ei chynnyrch. Bellach mae hi wedi gallu cyflogi rhywun un diwrnod yr wythnos i helpu hi gyda'r busnes.








Dyma flas o gynlluniau Menter Môn sy'n cyfrannu at greu Cymru fwy llewyrchus  - mae'r rhestr o brosiectau yn un faith, gyda phrosiectau yn plethu drwy gilydd i greu a chynnal budd i'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.